# Astudiaeth achos

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

## Grymuso Arweinwyr: Archwilio Effaith Rhaglen Arweinyddiaeth 20Twenty Prifysgol Metropolitan Caerdydd

### Beth yw rhaglen arweinyddiaeth 20Twenty?

Mae'r Rhaglen Arweinyddiaeth 20Twenty yn rhaglen a gyflwynir gan Ganolfan Arweinyddiaeth a Menter Creadigol (CAMC) Prifysgol Metropolitan Caerdydd, mewn cydweithrediad â'r Sefydliad Rheolaeth Siartredig (SRS).

Wedi'i lansio yn 2009, gyda chyllid yr UE tan 2023, nod y rhaglen oedd darparu sgiliau rheoli ymarferol, sy'n canolbwyntio ar bobl, a helpu arweinwyr busnes i sicrhau twf proffidiol trwy annog meddylfryd addasadwy a hyblyg tuag at newid a darparu'r sgiliau sydd eu hangen i gystadlu mewn amgylchedd masnachu cynyddol anodd.

### Llwyddiannau allweddol

- 1,812 achrediadau a gyflawnwyd gan gyfranogwyr o dros 1,100 o fusnesau.
- Llwyddwyd i gyflawni'r holl fetrigau llwyddiant ar gyfer rhaglen 20Twenty.
- Mae 90% o'r cyllid ar gyfer 20Twenty wedi dod gan noddwyr, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'r DU a'r UE.

### Taith CAMC o ddatblygu arweinyddiaeth

Mae CAMC wedi gweithio gyda dros 1,100 o fusnesau a 1,420 o reolwyr drwy ei Raglen Arweinyddiaeth 20Twenty, gan arwain at 1,812 achrediad. Mae'r rhain yn cynnwys 802 tystysgrif Ôl-raddedig ac ardystiadau Lefel 7 CMI, yn ogystal ag ardystiadau Lefel 4 CMI.

Mae'r rhaglen 10 mis, a gyflwynir dros 10 diwrnod, sy'n cynnwys gweithdai, aseiniadau a Phrosiect Twf Strategol, yn caniatáu i gyfranogwyr ennill ardystiadau arweinyddiaeth ar Lefelau 4, 5 a 7 CMI, a thystysgrif Ôl-raddedig Prifysgol Metropolitan Caerdydd mewn Arweinyddiaeth Gynaliadwy. Mae graddedigion yn cael cyfle i ddatblygu eu cymwysterau ymhellach trwy ddilyn MBA Gweithredol Prifysgol Metropolitan Caerdydd neu ennill achrediad Rheolwr Siartredig.

### Ehangu ac effaith

Adweinyddodd llwyddiant 20Twenty at sawl ehangiad rhaglen:

- **Dyfodol Adeiladu Cymru (CFW):** Wedi'i datblygu o 20Twenty, cefnogodd y rhaglen £1.2 miliwn hon, a ariannwyd gan Fwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) a Llywodraeth Cymru, dros 300 o fusnesau tan 2018.
- **Help i Dyfu:** O ystyried profiad CAMC o ddarparu Hyfforddiant Arweinyddiaeth, a chymeradwyaeth yr Ysgol gan y Siarter Busnesau Bach, penodwyd CAMC yn ddarparwr lleol ar raglen £520m Llywodraeth y DU Cymorth i Dyfu.
- **Yswiriant Admiral:** Yn fersiwn bwrpasol o 20Twenty ar gyfer Admiral Insurance gwelwyd Prosiectau Twf Strategol dan arweiniad cyfranogwyr yn gyrru arloesedd, gyda chanmoliaeth gan Brif Swyddog Gweithredol Admiral.
- **Grant Thornton:** Mewn partneriaeth lwyddiannus rhwng CAMC a Grant Thornton, lansiwyd y Rhaglen Cyflymu Twf gwerth £750k a ariannwyd gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan gynnig cefnogaeth un-i-un wedi'i theilwra i 75 o gyfranogwyr.




Y garfan gyntaf o arweinwyr busnes BBaCh sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Rheoli Cymorth i Dyfu.

## Adeiladu rhwydweithiau cryf

Mae CAMC wedi sefydlu perthynas â dros 1,000 o fusnesau ar draws De a Gogledd Ddwyrain Cymru. Mae ei raglen Cyn-fyfyrwyr yn meithrin cydweithio rhyngddisgyblaethol â phartneriaid allweddol fel Admiral, NatWest, Banc Cymru, Siambrau Cymru, IoD, CBI Cymru, FSB, a Grant Thornton.

## Cydnabyddiaeth ryngwladol

Mae effaith CAMC wedi cael ei gydnabod yn rhyngwladol. Amlygodd Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021 (REF2021) gyflawniadau CAMC, ar gynhyrchiant yn ei broses casglu tystiolaeth. Mae gwerthusiadau annibynnol wedi cadarnhau'n gyson ddylanwad cadarnhaol rhaglenni CAMC, gyda'i chyfraniadau i ddatblygiad busnes ac economaidd wedi'i nodi mewn cyhoeddiadau academaidd megis Economi Leol.

### Adborth cyfranogwr

"Mae'n wych gweld mentrau megis Rhaglen Arweinyddiaeth Admiral, a gyflwynir mewn cydweithrediad â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd, yn darparu budd ac effaith busnes go iawn".

*Matt Wintle, Pennaeth Caffael a Datblygu Talent yng Ngrŵp Admiral Plc*

"Mae wedi ein helpu i greu ffocws strategol fel sefydliad, gan arwain at ddatblygu adran newydd gyfan. Byddwn yn bendant yn argymell y rhaglen gan ei bod o fudd i'r cwmni."

*Andrew Baker, Cyfarwyddwr Cyllid, P & A a zest*

Mae rhagor o straeon llwyddiant o'r rhaglen 20Twenty i'w gweld ar y wefan: yma

## Gweledigaeth CAMC ar gyfer y dyfodol

Ar hyn o bryd mae'r cynllun Cymorth i Dyfu yn cael ei ariannu drwy Gronfa Ffyniant Cyffredin Llywodraeth y DU tan fis Mawrth 2025.

Mae llwyddiant a thwf parhaus y rhaglen 20Twenty, ynghyd â mentrau hyfforddi arweinyddiaeth CAMC, yn dibynnu ar sicrhau cyllid ychwanegol ac ehangu eu cynigion. Mae hyn yn cynnwys datblygu rhaglenni hyfforddi newydd, megis micro-gymwysterau a chyrsiau byr, i ddiwallu anghenion esblygol busnesau ym maes datblygu Arweinyddiaeth a Rheolaeth.

I drefnu galwad gydag aelod o dîm Ymchwil ac Arloesi Metropolitan Caerdydd, e-bostiwch business@cardiffmet.ac.uk



Chris Davidge, Rheolwr Gyfarwyddwr, Peter Jones ILG Ltd.

Peter Jones ILG Ltd: Llunio gweledigaeth ar gyfer twf busnes. Darllenwch yr erthygl yma

## Darganfyddwch mwy am CAMC

Darganfyddwch mwy am CAMC: yma

Ewch i wefan 20Twenty: yma

Cysylltwch â'r tîm drwy e-bostio: clec@cardiffmet.ac.uk

UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION | Llywodraeth Cymru Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop European Social Fund

20twenty BUSINESS GROWTH

Cardiff School of Management | Ysgol Reoli Caerdydd

CMI Chartered Management Institute

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd